AIL LYTHYR HEN BECHADUR At ei gyd FRODYR;

Wedi ſylfaenu ar y geiriau hyn, "Gwrando ferch a gŵel," wedi cymmeryd allan o'r bumed *Pſalm* a deugain, a'r ddegfed adnod Gan *Ellis Roberts.*

ENGLYNION

Dôs lyfran bychan bacha yr ifainge,
Arafaidd fwynaidddra,
I'w troi o'r drŵg cilwg cwla
I neithiar Duw i wneuthyr da.
Pâr i fôn union enyd ac arfon
Gynhyrfu am ei bywyd,
Rhag gwaſgfa odfa adfyd
Leſgedd boen pen loſgo 'r bŷd.
I Ddimbuch bronwych i bri does yno,
Gwna waſanaeth iddi,
Dod godiad i fyn'd gwedi
I Fflint hên at i phlant hi.
Drwy wynedd gwchedd gochwyn . fi gynig,
Ac anerch rai addfwyn,
Trwy feirion moddion mwyn,
Tro i foldio Trefaldwyn.
Oddiyno heda 'r deheudir gwlad,
Gwiw liwdeg waſdattir,
Cei gariad pob dŷn geirwir,
Agoro ei gêg i garu 'r gwir.
Gwêl fi yn profi bob pryd dy oriau,
Sy 'n dirwin dy fywyd,
Drwy ymynedd cofia 'r mynud,
Y daw 'r bêdd, di ei o'r bŷd.

Argraphwyd yn y *Mwythig*, gan J. EDDOWES tros PETER MORRIS, yn y Flwyddyn, 1772.

4446.
4107.

Y RHAGYMADRODD.

FY anwyl gyfaill, bûm mor rhyfygus a danfon attat yr ail waith; y tro cyntaf oedd dymuned itti gofio, a'r waith hon gwrando a gwêl; ond mi ddylyfwn roi gwrando a gwêl o flaen cofia, ond dyma fel mae gwaith pechadur anyfgedig anheimladwy, yn ceifio darn linîo rhiw wael gyngor yn ei dywyllwch iw gyd frodyr pechadyrus, ond bydded hyfbys i'm holl wrandawyr nad ydw i yn anerch nêb o uchel waedoliaeth, na nêb cnawdol doeth, nac un yfgolhaig coeg falch, nac un dyfciawdwr llythrenol, nac un dadleuwr ymbiniongar, o herwydd nad oes bofibl imi, bydawn ni o ddyfc Gamaliel, ac o ddoethineb brenin Ifrael, fod yn fwyd melus ymol pawb, tra bo gymaint o opiniwneu yn rhagfarnu ar ei gilydd a phawb ar y llwybur nefol meddant hûy, braidd na byddi gan bawb yn ynys brydain piniwn ar ei ben ei hŷn, ond trwy allu 'r galluocaf frenin y brenhinoedd y Jehofa mawr ofnadwy, dof attat ti pwy bynag ydwyt ti 'r cymro fydd heb wybod ymlith yr holl opiniwneu i ble i fyned, o herwydd tybies fod ynw i riw gymelliad i ddanfon attat y waith hon, hyn o waeledd bappurun, ith ddwylo di, a phawb fyda am ddyfod allan o Sodom a ffoi i Soar, yr Arglwydd

a egoro dy gluſtiau di a minneu, i glywed ac i weled yr hyn ſydd angenrhaidiol, ein dwyn i'r porthladd dymunol, tra bo ni ar ein hymdaith ar y ddaiar, yn ein hamſer byr darfodedig, ac anſicir a pheryglus, canys fe ddaw y llofrydd ofnadwy gan angeu ar fyr, i dorri edafedd ein bywyd, fel y clywſom am rai o'n cymmodogion, ie ni glywſom am eu marwolaeth a'u ymadawiad a'r bywyd hwn, ni glywſom glul heb neb yn yſtyried, a'r achos oedd na egorwyd mo gluſtiau 'n eneidiau, i glywed fod yn rhaid i ninneu fyned yr ûn ffordd ein hunain; ac hefyd o'r ty arall, ni welſom lawer yn gorwedd ar wlau marwolaeth ni welſom eu claddedigaith, ni welſom eu heſgyrn wedi gwaſgaru 'rhyd bridd y fynwent, y rhai fu mor yſgafn ac iâch ac ydem ninneu yr awr hon; ond rhodded yr Arglwydd ini olwg yſbrydol i ganfod ein dideimladrwydd cyn iddi fyned yn rhy hwyr, rhag ofn ini lithro dros oeſodd tragwyddoldeb i'r lle nas mynaſem, ond oen Duw gogoneddus yr hwn a gyfenwodd Peilat brenin yr Iddewon, a egoro gluſtiau 'r byddarion, ac a roddo olwg i'r deillion, tra bo ein dyddiau 'n parhau, cyn cau 'r pyrth yn yr heolydd, cyn cau drws trugaredd, cyn i'r amſer baſſio ac na byddo mwyach.

AIL

Ail Lythyr Hên Bechadur, &c.

TYR'D yn nês y cymro mwynedd,
Tyr'd i gyro at ddrws trugaredd,
Tyr'd ger bron y brenin ſeilo,
Di gei gluſtiau newydd ganddo.

Fel y dŷn dall o'i enedigaeth,
Di gei olwg newydd ailwaith,
Fel y gwelochd amryw ddynion
Yn cyd ymorol fel coed meirwon.

Wel gwrando a gwel dan ddêl duw 'n ddilys,
I'th gymryd di atto fe 'n groeſawus,
Fe a'th arwain trwy 'r Jorddonen embyd
I'r wlad lle mae tragwyddol fywyd.

Yn y bymed Pſalm *a deugain a'r geiriau cyntaf o'r ddegfed adnod*;

Mae yſbryd Chriſt yn llyfaru trwy enau ei brophwyd Iſrael fel hyn, gwrando ferch a gwêl. Fe alle 'r tri gair yma dcaeth trwy 'r yſbryd glan, roddi

dibben ar lawer o ddadleuon ac ymryſonau ſydd rhwng dynion a'u gilydd ynghylch addoliad Duw. Canys llawer o ddynion ſydd yn rhoddi pwys ai hyder, mae 'r eglwys ydyw 'r tŷ cyfarfod, a bwyntwyd i wneud achoſiwn plwyfol, ac i ymgyfarfod y ſaithfed dydd, yr hwn a adeilhadwyd o goed a cherrig. Yſtyria dithe o ddŷn ſydd ar ddadal yma ganddo, pa fodd mae yſbryd Criſt yn dywedyd, gwrando fêrch a gŵel, a goſdwn dy gluſt ac anghofia dy bobl dy hŷn, a thŷ dy dâd; ac yn y fers neſaf ar brenin yn chwenych dy degwch, efe iw dy Jôr di ymoſdwng dithe iddo fe; ac yn y drydydd fers ar ddeg or ûn Pſalm, merch y brenin ſydd oll yn ogoneddus, gemwaith aur iw ei gwiſc hi; ac ymlaen mewn gwaith edef nodwydd y dygir hi at y brenin, wel, gwrando a gwêl fod rhyw fanylwaith rhyfedd yn perthyn i eglwys Dduw, yn ymgenach na thŷ, ac adeiladaeth o waith dwylaw dŷn.

Ond gwrando ddŷn nid wyfi yn barnu,
Ddim ar yr adail hôn er hynny,
Ond dwyn ar gôf itti mae 'n gymwys,
Mae priod Criſt iw 'r unig eglwys.

Ond darllen di ganiadeu Solomon,
Cei weled yno hîr ymddiddanion,
A wnaeth yn yſbryd Criſt yn gymwys
Rhyngtho a'i briod, ſef yr eglwys.

Gwrando

Gwrando a gwêl, nad oes yn nyddiau 'r efengil ddim rhagor rhwng ûn lle ai gilydd i broffeſſu Criſt, ſef y rhai ſydd yn ofni ei enw, yr ûn peth yw ei dŷ a'r deml. Os ni geidw ein hyder a'n gorfoledd a'n gobaith yn ſicir hyd y diwedd, tem- Duw buw ydych medd Paul, yn yr ail o'r corinthiaid, y ddegfed benod a'r unfed fers ar bymtheg; ond gobeithio, nad oes neb ymeddwl yn y meſur lleiaf, fod monai yn dyweud dim am gyfarfod yn y bŷd ſy 'n perthyn i griſnogion, nac eglwyl loegr chwaith, o herwydd bydd rhai 'n gadwes dig o bob ſect ac opiniwn; ond dwyn ar gof i'r anwybodus pa beth yw eglwys, honno yw y duwiolion, o blegid dywedodd Criſt i hŷn, ym mah le bynag a ymgaſfyddo dau neu dri yn fy enw, yno bydda i yn eu canol hwynt.

'Roedd dan y gyfraith amryw bebill
I rai teg anwyl i gŷd ymgynill,
Ond dan'r efengil mae Criſt Jeſu
Iw gael mewn teml ac mewn teulu.

Weithian 'rwi yn dyfod attat ti frawd anwyl i ddwyn ar gôf itti mae gwell itti ffoi efo 'r gwan na ſyrthio efo 'r crŷf. Y rhai cryfaf ynddynt ei hynain, yw y rhai pellaf oddiwrth deyrnad Dduw; iach ydynt, y meddig yw Criſt; nid rais i'r iaeh wrth 'feiddig, ond i rhai cleifion; mae markau ar bobl Dduw, llwythog ydynt a blind-

erog

erog, i'r cyfryw rai mae gan yr Arglwydd ſpytty [hoſpital] fe ai derbyn hwynt ei gael eſmwythau arnynt; o gyfaill, di ddygeſt di a minneu ddigon o bechod hefo ni ir bŷd ini edifarhau ei blegid, tra bo ni buw ar y ddaear, ped fuaſei ni heb bechu dim yn ein bywyd, ac etto darfu ini bechu yn ein bywyd, y bydaſe heb bechod yn dyfod hefo ni i'r byd, mae digon o achos ini alaru holl ddyddiau ein heinioes o gwybydd fod pechod ymhob dyn duwiol, ond nid iw pôb dŷn duwiol mewn pechod; gwrando ddŷn a gwêl, fod Duw yn dda i rhai ſydd yn ei geiſio ef, a pha faint mwy i rhai ſydd yn ei garu ef.

Y dŷn ni chofia 'n ddwys ei ddiwedd,
Hwnnw ymollynga i bôb gwagedd;
Ond yr hwn o wendid ymethu ymado,
Criſt ei hŷn a ddaw iw helpio.

O ddŷn gwell itti fod yn ffôl ynghyfrif y bŷd, na bod ddwy waith yn farw ynghyfrif yr Arglwydd. Ond goſoded i griſtion farw un waith, a'r anuwiol fydd marw ddwy waith, gŵel fod yn well itti fod yn gadwedig yn heli adfyd, na ffydru yn mêl hawddfyd; nid iw pwys cerydd a chyſdydd am bechod ond yſgafn a hyfryd; i rhai mae pwys pechod yn drwm ac yn anhyfryd; gwrando o ddŷn, mae llawenydd cnawdol yn myned o flaen triſdwch, a thriſtwch yſbrydol yn blaenori llawenydd

nefol

nefol, a blinder mwya 'r crifdion wrth farw yw, na wnaethae fwy dros Dduw, a'i lawenydd mwya ef, iw iddo wneuthyr cymaint: mae 'r bŷd yn ddîg wrth y duwiol eifie i fod ef yn waeth, a'r duwiol yn ddig wrth y Bŷd ac wrtho ei hynan, eifio bod yn well. Gwrando a gŵel, fod llawer yn myned i uffern heibio i ddrws y nêf, a rhai yn myned i'r nêf heibio i borth uffern; trugaredd fawr iw bod yn ûn o'r rhai lleia ynghrift, ie, yn well na bod yn un o rhai mwya yn y bŷd allan o hono ef.

Wel gwrando air y cyfaill diofal
Nawr yn dy gluft na bydd anwadal,
Eill wneud itti ddaioni anion
Gore golyd yn dy galon.

Clyft ymwrando heno yn hynod
Lês cŷd obaith lais cydwybod,
Sydd ith rhybyddio hwyr a bore,
I mado yn chwidir a'th bechodau.

Gwêl fod dy amfer yn myn'd heibio
Yn fuan iawn, daw diben arno,
Pob awr a weloch'd yn dibennu
Ni ddaw hi 'n ôl dros fyth ond hynny.

Mae gair Mathiwflem iw arferud
Fu fuw naw cant a rhagor hefyd,
Yr hyn a ddywedodd ef wrth farw
Fy rhoi ddoe am dwyn i heddyw.

Wele

Wele 'r cyfaill mwynlan, na bydd yn yſmala yn y term byr o fywyd a roes Duw itti ar y ddaiar, a gwrando ei ymdeimla; ymha gyfiwr rwyt ti yn buw ynddo yr awr hon, bydae nerthol alluogrwydd Duw, yn danfon ſwyddog didrugaredd i rythro arnat a'th doro i di cyn y nôs heno, na chaffoch di droidio tu yma i angheu mwyach, a bod cydwybod yn ôl ferdid y barnwr hollalluog, yn rhoi chwarter ſeſſiwn y mynud hwnw arnat, yn ol meddylfryd dy galon yr awr hon, di glyweſt, ac rwytti yn lled feddwl mae yn y ddaiar rhoir dy gorph bydur, llygredig, balch, rwyti yn ei wiſgo yr awr hon, neu rwyti yn edrych ar dy farwolaeth yn y pen chŵith i ſpien ddrûch, yr hon yn y pen hwnnw ſydd dangos pob peth ymhell ac nid yn angos; ac ni chredeſt di erioed mewn gwirionedd am farwolaeth, neu fe fuaſe yn attal dy chwerthinied ynfyd a'th eiriau ſegur, ac yn ei bwrw ymaith rhag rhoi dy gliſtiau i wrando ar ffôl wagedd, ac ofer chwedlau celwyddog a glyweſt di dan yr haul; tybia o ddŷn, 'reiff dy gorph di i'r ddaiar yn fwyd i ffiaidd fwiſtfilod, neu yngwaelod y môr yn ymborth i'r creaduriaid ſydd yno; ac oni choili, agor ûn o feiddi dy rieni, datod gauad i harch, ac yno cei weled drych oth lygredigaeth dy hûn, a hyn a fydd fe alle yn gynt nac 'rwytti yn meddwl; ac fe alle gwna 'r weledigaeth yma wneud itti ymffroſdio llai yn dy wroldeb a'th cyfoeth: gwrando,

nid

nid iw dy einioes ond awel wynt ſydd yn dy ffroenau, yr hwn, pe'd ſtopid tros hâner awr, dyna gorffilin gwageddus baich yn diſgin dan droed, dan ddelo ſain nefolaidd iw all godi fe oddiyno; ond gwrando dros ychydig etto, p'le bydd dy enaid a'r yſbryd a anadlodd Duw mawr ynoti? gwybydd, fod pôb dŷn a dynes wedi gwneud yn dŷ i rhain, fel y gweli bren, yn rhiſglin, yn ganol; yn galon, a'r enaid iw lleſder ſydd yn cario 'r yſbryd trwy fôr o waed o'r galon i'r menydd, ac i rhain nid oes marwolaith, nac i'r corph chwaith; nid oes derfynied iddo pan adgytodir ef ddydd barn, achos mawr itti a minneu wrando a llwyr ſtyried, ymha le byddwn yn bwrw tragwyddoldeb, o herwydd mae gair y brenhin ſeilo yn dyweud, fod llawer wedi galw ac ychydig wedi dewis; mae'n bryd ini gluſt ymwrando am ben y ffordd o herwydd dywedodd Criſt ei hun, myfi yw 'r ffordd y gwirioned a'r bywyd. O ffown oddiwrth y lliaws ſydd yn gwneuthur drwg. Gellwn farnu wrth y Geiriau, fod llawer wedi galw, mai 'chydig ſy 'n dyfod mewn teimladrwydd i ſtyrio ac i wrando gair Duw, nid rhaid ini mo 'r myned ymhellach na ni ein hynain, y rhai a gyfenwir proteſtaniaid fel y maent hwy yn myned i w haddolied ddydd ſaboth, dan ofer fiarad am betheu y bywyd yma, ac wedi dyfod allan yr ûn môdd, oddigerth i riw ûn ddywedyd 'roedd yn burion pregeth, heb yſtyried dim o'r hyn a glywſant. Yno dychwelan

at

at yr ûn ſiarad drachefn ; ond union a dywedodd y ſalmydd, yn y drydydd ſalm ar ddêg a thrigain, a'r fers gyntâf hyd at y ddaunawfed, fel 'roedd dynion yn amſer y prophwyd, yn cael ei iechyd a'u hawddfyd heb ddim yn ei blino ynghylch mater ei heneidiau, ond chwedleuant yn ofer, ond yr hên gerddor Iſrael ynghyſeger Duw, a welodd ei diwedd mewn llythrigfa o golledigaeth dragwyddol.

Ond eiſie gwrando mewn gwirionedd,
Ar air duw a'i gofio'n buredd,
Mae mîl a miloedd mi wn o 'ſyweth
Yn ſyrthio i'r dygyn golledigaeth.

Ond mawr fôd dŷn o ſiliau maith,
Dros wyth a deigen, drigen waith,
Heb etto gael un enaid buw,
Na chofio fawr o feibl Duw.

Mae'n doſt gweled henddyn trigen,
Heb gofio o ferſus wyth a deigen,
A fers bob ſûl i'w hyn yn gyfan,
Am ûn flwyddyn o'i holl oedran.

Pettaſai 'r bibl yn ſtrauon
O drwſneidd wch i gym'dogion,
Neu riw ffôl hen chwedlau ofer,
Fe f'aſeu 'n medru mwy na 'r haner.

Nid

Nid o ran dim daioni tydd yndda i fy hunan a'm hanogodd i ſcrifennu hyn o waeledd lythyr attat, ond rhag imi fod fel y gwas diog hwnnw a guddiodd ei dalent yn y ddaear, o ran 'rwyf yn gwybod fod cymaint o angenrheidrwydd gwrando a chofio arna i fy hunan, ar mwya ſydd dan yr haul, ond geill Duw pen a'i mynno roi cluſtiau a golwg yſbrydol itti a minneu, i weled mor dwyllodrus ydyw yn calonnau, ac fel mae dŷn wrth naturiaeth yn gwbwl groes i air Duw. Mae nod ei weddiau ef yn ffiaidd gan yr Arglwydd. Darllen di 'r ddegfed Salm a deigen, di gei weled. Gweddia yn ddwys ac yn ddifrifol, am gael cluſtiau i glywed newyddion da o lawenydd mawr a ddaeth drwy Jeſu Griſt i'r bŷd, i'r pennaf o bechaduriaid. Yr Arglwydd a rotho yn ein calonnau gredu fod gair Duw yn wirionedd. Pedſai hynny wedi gwreiddio ynom, nid poſſibl na cheiſiem, bwyſo a meſyr ein bywyd wrtho. Mae'r amſer yn pwyſo ar ein gwarthaf os torrir ni i lawr heb un Criſt, y rhoen ni fil o fydoedd bydae ar ein helw, am ûn awr i wneud heddwch a Duw. Wel weithan tyrd di yr ifangc ym mlodeu dy Amſer, cei groeſo gan frenin ſeion; fe a'th wiſga a lifre newyddion; cei goron ar dy ben, a thelun aur yn dy ddwylo, yno cei glywed llawenydd anrhaethadwy dros holl oeſodd tragwyddoldeb. Yno cei glywed y peth na ddaeth i'th calon feddwl am dano, pan fo eraill ſydd yn dilyn puteiniaid a diota llyſon a maſweddra, oedd yn meddwl edifarhau,

farhau pan ae nhw yn hen, wedi cael eu torri ymaith a'u taflu i lun o dân a brwmſtan, lle mae wylofain a rhingcian dannedd dros byth ac yn dragywyddol. Wel gwrando di 'r dŷn canol oedran, ſydd wedi profi, mae gwagedd i'w 'r bŷd yma. Doro dy gluſt i wrando hanes y llawenydd ar gorfoledd ſydd yn y nefoedd, wedi ddarparu ar dy feder os gwnei di gymaint a gwneud hyd eitha dy allu, fel parodd Duw trwy ei fab Jeſu Griſt. Wel, ſy nghŷd gyfaill yr hên ddyn, ſydd yn tynnu at ei ddêg a thrigen, yr oedran benodwyd itti fôd ar y ddaiar, oddigerth itti, o gryfder gyredd ychydig yn rhagor, ac mae llawer o bleſſerau Satan wedi dy adel di a'r achos oedd, am fod dy nerth wedi mynd yn rhy egwan i'w cyflawni; oddigerth itti i cadw nhw yn ffrindiau yn dy feddyliau i gael dal gair Duw allan. Nid elli mo gyflawni dy orchwylion hefo 'r feniw butteinig na gallu dal yn y tafarndu, na dilyn dawns ar y Saboth, nag ymrafailio hefo nerthol ddynion. Nid oes dim ith nadel, oni bydd cylydddod wedi gwreiddio yn dy galon neu fod gennitt hên feddwl am dy bleſſerau gynt. Gwell itti ddyfod i wrando gair Duw, ac i edrych am ryw le a gelli di fyw ynddo gyda llawenydd calon. Gelli agos wybod fod yr yſtyllen wedi llifio, byddis ym yſtyndy hên gorph bregus di arni, a bod y pren wedi dorri a wneiff dy arch di, a'r amdo yn barod yn ſiop, ac fod yn ûn rhaff wrth y gloch ac a gan dy glul di. Mae'n debygol dy

fod

fod, yn gydnabyddus ar perſon a ddaw ot'h flaen i'r eglwys ac a'th ddenfyn oddiyno at y bedd, ac yno rhoir dy gorph di i'r ddaear, o'r hon y daethoſt o honi. Ni waeth itti ymroi i wrando gair Duw na pheidio, o ran nid wyt ti ddim yn hylaw iawn yn was i Satan, hefo dy lygaid dylion a'th ddanedd bylchiog, a'th gluſtiau byddarion. Gwrando a gwel, i bod hi wedi mynd yn ddyddiau 'r cŵn arnatti pryd na wneiff ffiſig y potticari fawr leſâd ith gorph bregus mae hi yn bryd ini gychwyn. Mae hi wedi yr unfed awr arddeg arnatti a minneu. A gawn ni 'r gair o gychwyn at ûn ſy'n croeſawu pawb a ddêe atto mewn gwirionedd. Yr hwn ſy'n byw ymlâl cyfammod newydd. A Duw o'r nefoedd a edrycho arnom a golwg o drugaredd; ac na throtho fe mo honom at yr hen feiſdir, y buom yn ffyddlon iddo fe yn nyddiau ein nerth. Ond nac oeda ditheu yr iſangc, chwaith o herwydd daw henaint i hyd i titheu ar fyr, os cei di hoedl cŷd. Yn awr 'rwyfi yn terfynnu; dyma yr ailfed lythyr imi yrru i blith fy mrodyr, ac nis gwn nad dyma'r diwaethaf. Yr a hwn wyr ydyw Duw hollalluog; i ba un gyda fab Ieſu Griſt, ynghyd a'i ſendigedig yſbryd, y byddo'r parch, clod a'r moliant o'r awr hon hyd oeſoedd tragwyddoldeb. Amen.

DIWEDD.

Yr EGWYDDOR.

A B C CH D DD E F FF G H I L LL M N NG O P PH R S T TH U W Y

A B C CH D DD E F FF G H I L LL M N NG O P PH R S T TH U W Y.

a b c ch d dd e f ff g h i l ll m n ng o p ph r ſ s t th u w y.

a b c ch d dd e f ff g h i l ll m n ng o p ph r ſ s t th u w y.